


# Beibl i Blant yn cyflwyno

## Iesu'n rhoi bwyd i 5000 o bobl



Awdur: Edward Hughes  
Lluniau gan: Janie Forest  
Alastair Paterson  
addaswyd gan: Ruth Klassen  
Cyfieithydd: Catrin Roberts  
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children  
[www.M1914.org](http://www.M1914.org)

BFC  
PO Box 3  
Winnipeg, MB R3C 2G1  
Canada

©2020 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,  
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd llawer o arweinwyr crefyddol (oedd yn cael  
eu galw yn Phariseaid) yn dweud celwydd am  
Iesu. Roedd rhai  
am ei ladd  
hyd yn  
oed.



Doedden nhw ddim yn credu bod Iesu yn Fab Duw er ei fod yn dangos fod hynny'n wir wrth wneud gwyrthiau.




3

Un diwrnod, croesodd Iesu i ochr draw Llyn Galilea. Efallai ei fod yn chwilio am dawelwch oherwydd y tyrfaeodd mawr oedd yn ei ddilyn. Ond daeth y bobl o hyd iddo yn fuan iawn. Roedden nhw'n gwybod fod Iesu'n gwneud gwyrthiau mawr. Roedden nhw am fod gydag e.




4

Aeth Iesu â'r disgyblion i ben mynydd unig a dechrau eu dysgu. Daeth mwy a mwy o bobl ato. Cyn hir roedd hi'n amser swper. Mae'n siwr fod pawb eisiau bwyd.




5

Edrychodd Iesu ar y dyrfa a gofyn i Philip, "Ble dyn ni'n mynd i brynu bwyd i bawb?" Doedd dim siop yn agos. Beth oedd Iesu'n mynd i'w wneud?




6

"Byddai angen ffortiwn i brynu digon o fwyd i bawb," atebodd Philip. Doedd dim llawer o arian gan Iesu a'i ddisgyblion.




7

Dywedodd Andreas, disgybl arall a brawd Simon Pedr, "Mae bachgen yma sydd â phum torth haidd a dau bysgodyn bach ganddo ..."



8

"... ond dydy hynny fawr o werth hefo cymaint o bobl." Doedd Andreas ddim yn deall sut allai cinio'r bachgen bach fwydo cymaint o bobl, hyd yn oed os oedd e'n fodlon rhoi ei ginio i Iesu.



9

Dyweddodd Iesu, "Gwnewch i'r bobl eistedd." Felly eisteddodd y dynion, tua pum mil ohonyn nhw. Meddylwch! PUM MIL! A doedden nhw ddim wedi cyfri'r merched a'r plant oedd yno.




10

Cymerodd Iesu y torthau a'r pysgod. Mae'n rhaid bod y bachgen bach yn trystio Iesu. Doedd e ddim yn gwybod pam fod Iesu angen ei ginio, na beth oedd Iesu'n mynd i wneud. Oedd e'n meddwl "Heb fy nghinio, bydd gen i ddim byd i'w fwyta"? Ond rhoddodd y bwyd i Iesu beth bynnag.



11

Yna, dywedodd Iesu weddi yn diolch i Dduw. Diolch am bum torth a dau bysgodyn? Ie! Diolchodd Iesu i Dduw a gofynnodd iddo fendithio'r bwyd.




12

Ar ôl gweddio, dyma Iesu'n torri'r bara a'r pysgod a gofyn i'r disgyblion rannu'r bwyd. Dyna pryd sylweddolodd y bobl fod Iesu wedi gwneud gwrth. Dyma bawb yn bwyta llond eu boliau. Ond roedd mwy ar ôl!




13

Ar ôl i bawb fwyta, roedd bwyd yn weddill. "Casglwch y tameidiau sydd dros ben. Peidiwch gwastraffu dim," dywedodd Iesu wrth y disgyblion. Dyma nhw'n llenwi deuddeg basged gyda'r tameidiau o'r pum torth haidd oedd heb eu bwyta.




14

Y diwrnod hwnnw, rhoddodd Iesu fwyd i dros 5000 o bobl wrth ddefnyddio cinio bachgen bach. Dro arall, rhoddodd fwyd i dros 4000 o bobl gyda saith torth ac ychydig o bysgod.



15

Pan welodd y bobl yr arwyddion hyn, doedden nhw ddim yn flin fel y Phariseaid. Roedden nhw'n dweud, "Mae'n rhaid mai hwn ydy'r Proffwyd sydd i ddod i'r byd." Roedden nhw'n gwybod mai Iesu oedd yr Achubydd roedd Duw wedi ei addo iddyn nhw yn yr ysgrifau sanctaidd.



16

Iesu'n rhoi bwyd i 5000 o bobl

Stori o Air Duw, y Beibl


sydd i'w gweld yn

Ioan 6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."

Salm 119:130

17



51



60

18

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

19